

CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 19 TACHWEDD 2021

Yn
bressenol: Cynghorydd John(Cadeirydd)

Cynghorwyr Burnett, Cowan, Cunnah, Henshaw, Jarvie,
R Lewis, Y Cynghorydd Wendy Lewis a/ac Robson

76 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Colbran a George.

77 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

78 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Awst 2021 yn gofnod cywir.

79 : ADRODDIAD ARCHIFYDD MORGANNWG AM Y CYFNOD 1 AWST I 31
HYDREF 2021

Rhodddwyd diweddariad cynhwysfawr i'r Aelodau ar waith y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2021 – 31 Hydref 2021 i gyd wedi'u categoreiddio yn erbyn canlyniadau'r Cynllun Blynyddol.

I grynhoi, dywedodd yr Archifydd fod Archifau Morgannwg wedi cael chwarter cadarnhaol arall, gan gyflawni nifer o dargedau yn y cynllun blynyddol a hyd yn oed gwneud cynnydd yn erbyn rhai o'r nodau tymor hwy o'r Cynllun Strategol cyffredinol.

Roedd yr adeilad a'r tîm yn dal i fod braidd yn gyfyngedig oherwydd y cyfyngiadau parhaus ac ni allant ymgymryd â'r holl bethau a wnaed cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae'r tîm yn parhau i wneud eu gorau i addasu gwasanaethau a gwneud cymaint â phosibl pan fo angen. Dangoswyd hyn y chwarter hwn gan fyfyrwyr sy'n dychwelyd i'r Archifau am y tro cyntaf ers mis Mawrth 2020, a'r cynllunio sydd wedi'i wneud i ganiatáu i wirfoddolwyr ddychwelyd i'r adeilad yn ddiogel. Mae datblygu gwasanaethau digidol i estyn allan at ddefnyddwyr ar-lein yn parhau i gymryd llawer o amser y tîm, ond mae'n parhau i dyfu a rhoi adborth hynod gadarnhaol.

Gwahodddwyd yr Aelodau i wneud sylwadau ac arsylwadau a gofyn unrhyw gwestiynau;

Roedd yr Aelodau'n fodlon ar fformat yr adroddiad newydd.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod canfyddiadau cyffredinol yr arolwg yn rhagorol ac roeddent yn edrych ymlaen at gael adborth ar feysydd lle nad oedd targedau wedi'u cyrraedd.

Nododd yr Aelodau fod rhai ffigurau gwyllo uchel iawn yn erbyn rhai trydariadau yn hytrach nag eraill. Cafodd yr Aelodau eu calonogi gan y duedd gadarnhaol ac roeddent yn meddwl tybed pa drydariadau a oedd yn ennyn mwy o ddiddordeb. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bu llawer o ddiddordeb ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch hen ffotograffau o Butetown.

Roedd yr Aelodau o'r farn y gallai fod mwy o gyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth yn gyffredinol a bod gan bob un o'r awdurdodau sy'n aelodau rôl i'w chwarae yn hynny o beth. Roedd yr Aelodau'n falch o fod wedi gweld y Gwasanaeth ar yr Antiques Roadshow ac fe'u calonogwyd gan y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan y Gwasanaeth.

Trafododd yr Aelodau ddigidoli a gofynnwyd a oedd unrhyw beth y gallai'r awdurdodau sy'n aelodau ei wneud i helpu yn enwedig mewn perthynas â chadw cofnodion Maethu a Mabwysiadu. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod llawer o ddiddordeb mewn Maethu a Mabwysiadu, gallai awdurdodau sy'n aelodau helpu drwy roi'r gwasanaeth mewn cysylltiad â'r bobl iawn a hefyd drwy sicrhau bod awdurdodau sy'n aelodau yn gwybod bod y gwasanaeth yn rhan o'u hawdurdod a'u bod yn talu amdano er ei fod yn eistedd yng Nghaerdydd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach y byddai ateb cadw digidoli ar waith, gobeithio, yn fuan fel eu bod i gyd yn cytuno i symud hyn yn ei flaen.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

80 : ADRODDIAD MONITRO MIS 6 2021/22 A CHYNIGION CYLLIDEB 2022/23

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn rhoi manylion gwariant ac incwm gwirioneddol i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg ar 30 Medi 2021 (Mis 6), yn erbyn Cyllideb gymeradwy 2021/22 ac amcanestyniadau ar gyfer sefyllfa alldro'r flwyddyn lawn i'r.

Rhodddwyd amlinelliad o'r adroddiad i'r Aelodau ac amlinellwyd crynodeb o'r canlynol:

Crynodeb Mis 6

Mae'r incwm a'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2021/22 yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb, er bod gostyngiad yn y gronfa wrth gefn ar hyn o bryd o'i gymharu â'r swm a gyllidebwyd (cyllideb o £40,000, rhagamcenir £20,695).

Mae Mis 6 wedi rhoi syniad wedi'i ddiweddarau o'r alldro rhagamcanol er nad yw cadarnhad o'r dyfarniad cyflog wedi dod i law eto. Mae hyn wedi'i adolygu ochr yn ochr â datblygu cyllideb 2022/23.

Darparwyd diweddiariad cynhwysfawr o bob pennawd yn yr adroddiad ac felly nid oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiynau am sefyllfa Mis 6.

Rhodddwyd amlinelliad i'r Aelodau o Gynigion Cyllideb 2022/23 ac amlinellwyd crynodeb o'r canlynol:

Crynodeb Arfaethedig o'r Gyllideb

Ar ddiwedd 2021/22, rhagwelir y bydd y balans wrth gefn yn llai na £100,000 ac mae risg sylweddol i lefelau cynhyrchu incwm yn y dyfodol, o ganlyniad i bandemig Covid-19 a'r lefelau cynyddol o wariant, yn fwyaf nodedig costau'r Ardreth Annomestig Genedlaethol. Er mwyn i'r Archifau gynnal lefel o wasanaeth a pharhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol, cynigir cynnydd o 9% ar gyfer cyfraniadau Awdurdodau Lleol yn 2022/23. Cynigir hefyd y dylid tynnu £10,000 i lawr o'r Gronfa Gyffredinol i ategu'r cyfraniadau cynyddol ac ariannu'r bwlch yn y gyllideb.

Mae'r gyllideb arfaethedig yn caniatáu ar gyfer cynnydd o 3.7% yng nghostau cyflogeion ond gall ansicrwydd ynghylch dyfarniadau cyflog yn y dyfodol olygu nad oes angen hyn ar gyfer 2022/23. Yn yr un modd, mae targedau incwm wedi'u gostwng i fod yn gynrychioliadol o'r amgylchiadau presennol a'r gostyngiad mewn incwm o weithgareddau masnachol a llogi ystafelloedd. Fodd bynnag, os bydd y sefyllfa ariannol yn 2022/23 yn gwella, naill ai drwy ffrydiau incwm uwch neu gynnydd llai sylweddol mewn gwariant, gallai fod addasiad yn ystod y flwyddyn o blaid yr awdurdodau lleol lle caiff cyfraniadau eu had-dalu'n rhannol. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar sefyllfa ariannol gyffredinol a chynaliadwyedd y gwasanaeth yn y flwyddyn i ddod.

Gofynnwyd i'r Aelod am unrhyw sylwadau, arsylwadau a chwestiynau.

Trafododd yr Aelodau y ffyrdd posibl o gynyddu incwm wrth i'r gwasanaeth agor yn ôl i gael effaith gyllidebol gadarnhaol gobeithio. Ystyriodd yr Aelodau gynnydd mewn Ffioedd a Thaliadau ond nododd y gallai hyn gael effaith negyddol ar adborth cwsmeriaid. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gallai'r Ffioedd a'r Taliadau am Storio a'r Cyfryngau gynyddu, gan na fyddai hyn yn effeithio ar y defnyddiwr unigol.

Sicrhawyd yr Aelodau y byddai'r Archifydd bob amser yn edrych ar ffyrdd o gynyddu incwm i wrthbwysu unrhyw gostau.

PENDERFYNWYD:

- a Nodi'r sefyllfa alldro blwyddyn lawn a ragwelir ar gyfer 2021/22 fel y nodir yn yr adroddiad.
- b Nodi'r gwelliant yn y gyllideb fel y nodir yn yr adroddiad.
- c Cytuno ar gynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23, fel y'u cyflwynwyd ym mharagraffau 28 i 54 o'r adroddiad.
- d Cydnabod y gall fod angen cyfraniadau pellach yn ystod y flwyddyn ar gyfer eitemau mwy o wariant nad ydynt wedi'u cyllidebu ar eu cyfer o ganlyniad i gynnal cyllideb ddarbodus.

81 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 18 CHWEFROR 2022

Daeth y cyfarfod i ben am 3.25 pm